# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

**2014 dccc 4**

## RHAN 3

ASESU ANGHENION UNIGOLION

*Materion atodol*

### 28 Cyfuno asesiadau o anghenion ar gyfer gofalwr a pherson y gofelir amdano

(1) Pan fo gan berson, y mae'n ymddangos bod arno angen gofal a chymorth, ofalwr, caiff awdurdod lleol gyfuno—

(a) asesiad o anghenion y person o dan adran 19 neu 21, a

(b) asesiad o anghenion y gofalwr o dan adran 24,

ond mae hyn yn ddarostyngedig i is-adrannau (2) i (4).

(2) Ni chaiff awdurdod lleol gyfuno asesiad o anghenion ar gyfer oedolyn (p'un ai o dan adran 19 neu 24) ag asesiad o anghenion ar gyfer person arall oni bai—

(a) bod yr oedolyn (neu, pan fo'n gymwys, person awdurdodedig) yn rhoi cydsyniad dilys, neu

(b) y caniateir i'r gofyniad i gael cydsyniad dilys gael ei hepgor.

(3) Ni chaiff awdurdod lleol gyfuno asesiad o anghenion ar gyfer plentyn sy'n 16 neu'n 17 oed (p'un ai o dan adran 21 neu 24) ag asesiad o anghenion ar gyfer person arall oni bai—

(a) bod y plentyn (neu, pan fo'n gymwys, person awdurdodedig) yn rhoi cydsyniad dilys,

(b) bod person sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn yn rhoi cydsyniad dilys o dan amgylchiadau pan fo'r awdurdod lleol wedi ei fodloni—

(i) nad oes gan y plentyn alluedd i benderfynu a gydsynia i'r asesiadau o anghenion gael eu cyfuno, a

***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

(ii) nad oes person awdurdodedig i wneud y penderfyniad ar ran y plentyn, neu

(c) y caniateir i'r gofyniad i gael cydsyniad dilys gael ei hepgor.

(4) Ni chaiff awdurdod lleol gyfuno asesiad o anghenion ar gyfer plentyn o dan 16 oed (p'un ai o dan adran 21 neu 24) ag asesiad o anghenion ar gyfer person arall oni bai—

(a) bod y plentyn neu berson sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn yn rhoi cydsyniad dilys, neu

(b) y caniateir i'r gofyniad i gael cydsyniad dilys gael ei hepgor.

(5) Mae cydsyniad a roddir o dan is-adran (2), (3) neu (4) yn ddilys ac eithrio yn yr achosion a ganlyn—

ACHOS 1 - mae'r awdurdod lleol wedi ei fodloni, yn achos cydsyniad a roddir gan oedolyn neu blentyn sy'n 16 neu'n 17 oed, nad oes gan yr oedolyn neu'r plentyn alluedd i gydsynio i'r asesiadau o anghenion gael eu cyfuno;

ACHOS 2 - mae'r awdurdod lleol wedi ei fodloni, yn achos cydsyniad a roddir gan blentyn o dan 16 oed, nad oes gan y plentyn ddealltwriaeth ddigonol i wneud penderfyniad deallus ynghylch cyfuno'r asesiadau o anghenion;

ACHOS 3 - mae'r awdurdod lleol wedi ei fodloni, yn achos cydsyniad a roddir gan berson sydd â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn o dan 16 oed mewn perthynas ag asesiad o anghenion y plentyn—

(a) bod gan y plentyn ddealltwriaeth ddigonol i wneud penderfyniad deallus ynghylch cyfuno'r asesiadau o anghenion, a

(b) nad yw'r plentyn yn cytuno â'r cydsyniad a roddir gan y person sydd â chyfrifoldeb rhiant.

(6) Caiff awdurdod lleol hepgor y gofyniad i gael cydsyniad dilys yn yr achosion a ganlyn—

ACHOS 1 - mae'r awdurdod lleol wedi ei fodloni, o ran asesiad o anghenion oedolyn—

(a) nad oes unrhyw berson a gaiff roi cydsyniad dilys, a

(b) y byddai cyfuno'r asesiadau o anghenion er lles pennaf yr oedolyn;

ACHOS 2 - mae'r awdurdod lleol wedi ei fodloni, o ran asesiad o anghenion plentyn sy'n 16 neu'n 17 oed—

(a) nad oes gan y plentyn alluedd i roi cydsyniad dilys,

(b) nad oes person awdurdodedig a gaiff roi cydsyniad dilys ar ran y plentyn, ac

(c) y byddai cyfuno'r asesiadau o anghenion er lles pennaf y plentyn;

ACHOS 3 - mae'r awdurdod lleol wedi ei fodloni, o ran asesiad o anghenion plentyn o dan 16 oed—

(a) nad oes gan y plentyn ddealltwriaeth ddigonol i wneud penderfyniad deallus ynghylch cyfuno'r asesiadau o anghenion, a

(b) y byddai cyfuno'r asesiadau o anghenion yn gyson â llesiant y plentyn.

(7) Yn yr adran hon ystyr "person awdurdodedig" yw person sydd wedi ei awdurdodi o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 (p'un ai yn gyffredinol neu yn benodol) i benderfynu a gydsynia ar ran yr oedolyn neu'r plentyn i'r asesiadau o anghenion gael eu cyfuno.